***"Y peth pwysig efo bod yn greadigol yw cadw i fynd."***

Mae Mary Lloyd Jones yn 90! Canrif namyn deg o feddwl, ceisio deall, ymrafael â phaent, gweld, a gweld eto. Pan dwi'n meddwl am Mary, mae pethau'n goleuo.



Es i i siarad â hi yn ddiweddar yn ei chartref yn Aberystwyth, a chael cwmni ei merch Gudrun a'i hŵyr Osian. Mae ei meddwl agos, y manylion am bethe bob dydd, a'r cof tymor byr yn dechrau pallu. Efallai nad yw'n cofio enw hwn a hwn, ble mae rhywbeth wedi'i osod, efallai fod y manylion beunyddiol yn meddalu.

Ond mae'r cof hir, am ei hymarfer, ei hanes a hanfod ei syniadau wrth greu gwaith celf yn parhau'n rhan hollol glir o'i hymwybyddiaeth. Mae'n sgwrsio mor huawdl ag erioed am haniaeth, am geisio ystyr, am y broses a'r wefr o baentio. Efallai fod hyn yn adlewyrchiad o'i hymarfer fel artist – fod ei gwaith yn llwyddo i oddiweddyd cyffredinolrwydd bywyd bob dydd, gan fynd at hanfod pethau, at y cof dwfn, at bethau elfennig, cymhleth. Dacw baentiad neu ddarlun sy'n ymbalfalu i geisio deall, wrth i Mary barhau, parhau i greu. Mae'n dal i 'drôio', a dwi ddim yn meddwl ddaw terfyn ar hynny fyth.

I fi, Mary yw artist pwysicaf ei chenhedlaeth. Gallwn oll ddysgu sawl gwers o'r modd y mae'n ymwneud â'r byd o'i hamgylch. Mae ei gweledigaeth o ran cyfuno'r geiriol a'r gweledol a chymylu'r bwlch rhwng y ddau, gan herio gor-felysdra ac ystrydebwaith traddodiad paentio tirluniau Cymru, yn chwa o awyr iach. Mae ei gallu i osgoi dewis hawdd y lliwie twristaidd, a phalu'n ddyfnach a glynu at ei greddf, yn gyffrous a heriol. Nid apêl at farchnad na chyfalaf sydd wedi sicrhau ei statws fel un o artistiaid mwyaf llwyddiannus a diddorol Cymru. Yr hyn sy'n gyrru ei seren yw ei phendantrwydd, ei phenderfyniad a'i gweledigaeth – a'i dawn digyffelyb wrth gwrs. Mae'n hawdd ymgolli yn ei phaentiadau, mae pob un fel parti syrpreis.

Dim ond yn sgil ei phenderfynoldeb cynnar, dros drigain a deg  o flynyddoedd yn ôl, yr aeth Mary ati i baentio o gwbl,

> *"Pan es i'r coleg o'dd y bechgyn un ochr, a wedyn o'dd y merched yn goffod bod yr ochr arall. A o'dd y merched fod i ga'l dysgu am gwnïo a gweu, neud pethe ymarferol i neud â'r tŷ. Ond o'n i isie dysgu ambyti paentio. A dim ond y dynion o'dd yn cal mynd i'r cwrs yna. Achwedyn, beth 'nes i, penderfynu unwaith yr wthnos i fynd i weld y boi o'dd yn rhedeg y cwrs, lle o'dd dynion un ochr a'r merched ochr arall. Es i unwaith yr wthnos i weud bo fi ise newid, bo fi ddim ise bod fel oe'n i, o'n i ise neud yr un peth â'r bechgyn. A wedes i 'na wrtho fe bob wthnos am dymor cyfan. Wy ise dysgu paentio. A roeth e mewn, yn y diwedd. 'ok'. O'dd e wedi diflasu. O'dd e'n eitha crac. Ond o'n i'n cario mlân."*

Dyna'r penderfyniad gore wnaeth y tiwtor hwnnw, mae'n rhaid! A hithau ar drothwy ei degfed degawd ar y ddaear, mae Mary wedi dychwelyd at ddefnyddio ardal ei magwraeth, Pontarfynach a Chwm Rheidol, fel ysbrydoliaeth ar gyfer creu. Tybed a yw'r  tirlun rhyfeddol hwn wedi ysgythru ei ffordd, rywffordd, i'w hymwybyddiaeth a'r ffordd y mae'n edrych ar bob tirlun ers hynny,

> *"Wy bob tro yn ceisio gweld pethe newydd, ac ymateb iddyn nhw. Ond nawr wrth gwrs, allai'm neud 'na felly wy'n ailedrych ar bethe, o 'nghwmpas. A dyna pam bo'r dyffryn, a patrwm pethe fan hyn, yn fwy diddorol. A wy ise mynd nôl atyn nhw."*

Nodwedd amlwg o waith Mary yw ei hymlyniad at haniaeth, a dyna, am wn i, sy'n gwneud i'w gwaith deimlo mor gyfoes a chyffrous o'i gymharu â nifer o'i chyfoeswyr, yn amlweddog ac yn wahanol bob tro y byddwch yn edrych ar ei gwaith.

Beth felly sy'n eich denu at yr abstract?

> *"Mae'n anodd rhoi rheswm achos chi'n delio efo rhwbeth sydd falle'n afresymol... Neud pethe'n sydyn a just ca'l syniad, a wedyn gweld beth sy'n mynd ymlân. A chi ddim yn gwbo. A ma'r ffaith bo chi ddim yn gwbo, weithie yn bwysig. Beth wy'n neud yw edrych ar bethe a wedyn rhoi pethe at ei gilydd mewn ffordd falle nagych chi ddim yn weld yn syth ond ma rhyddid gen i i neud beth dwi am, a wy'n meddwl ok, na beth wy ise neud. Achwedyn wy'n rhoi pethe at ei gilydd bydde ddim falle efo'i gilydd yn y byd fel 'ma fe. Ond ma'r holl beth yn ddirgel, achos os y'ch chi'n gofyn gormod, y'ch chi'n colli rhyddid, achwedyn wy'n trial cadw y rhyddid." *chwerthin direidus**

Mae gymaint o bethau yn dal i gyffroi Mary a chynnal ei hysbryd gloyw, er gwaethaf profedigaeth enbyd colli ei gŵr John a'i merch Sianed, o fewn yr un flwyddyn. Mae Mary yn sôn am y ddau a'u dylanwad parhaus arni hi, ac mae'n amlwg heb y bobl o'i hamgylch heddiw yn y stafell fyw yn cael tê, Gudrun ac Osian, a'r bobl eraill sydd wedi bod yn bwysig iddi drwy ei bywyd, na fyddai'r un egni a chynhaliaeth wedi bod yno i fedru creu a chynnal ei seren.

Does dim pall ar ddiddordeb Mary yn y byd a'i ddirgelion. Mae'n dal i dderbyn llythyron, dal i sgwrsio, dal i ddrôio. Mae arddangosfa ganddi yng Nghaersws ar hyn o bryd, yn ogystal â'r arddangosfa yn Oriel *Celf* i ddathlu ei phenblwydd yn 90. Mae ei hafiaith am fywyd yn ddwfn yn nhir Ceredigion, ac mae ei meddwl yn agor allan o hyd fel map o fywyd cynhyrfus, at y coed, y nentydd, at deithiau tramor yn India, Ffrainc, Yr Alban, at iaith a sŵn a gwead, at atgofion o'r gorffennol a breuddwydion i'r dyfodol.

*'Chi dal i fod yn brysur te Mary?'*

*"O wel ie ie! Chmod! Cadw i fynd!"*

Pen-blwydd hapus iawn i Mary Lloyd Jones, a hir oes i'w rhyddid.